Gorsaf 1

Gweddïwch dros waith RADA, partner Cymorth Cristnogol, sy'n helpu mamau beichiog i roi genedigaeth yn ddiogel trwy hyfforddi nyrsys, cyflenwi canolfannau iechyd a grymuso merched yn Sierra Leone.

Efa a Kadie

'Dyma'r dyn yn rhoi'r enw Efa i'w wraig, am mai hi fyddai mam pob person byw.'
Genesis 3:20

Ystyr y gair Efa yn Hebraeg ydi 'byw', neu 'un sy'n rhoi bywyd'.

Diolchwch am wyrth bywyd ac am y ffaith fod pob babi wedi eu creu yn unigryw ac yn rhyfeddol, gan eich cynnwys chi!

Rhowch eich mynegfys ar y pad stamp inc ac wedyn rhowch eich bys ar y ddalen a gweddïwch gyda geiriau'r salmydd:

'Ti greodd fy meddwl a'm teimladau; a'm plethu i yng nghroth fy mam. Dw i'n dy foli di, am fod dy waith di mor syfrdanol a rhyfeddol! Mae'r cwbl rwyt ti'n wneud yn anhygoel!' (Salm 139:13-14)

Diolchwch am Hassan, sy ond yn chwe diwrnod oed yn y llun uchod. Cafodd ei eni yn Sierra Leone a dywed ei fam, Kadie, 'Rwyf mor hapus fod fy mabi'n iach.'

Rai blynyddoedd yn ôl, cafodd Kadie dau fachgen bach a fu farw o ddiffyg gofal meddygol. Pan oedd yn feichiog gyda Hassan, roedd hi'n poeni ynghylch rhoi genedigaeth, yn y gred y gallai'r babi farw. Diolchwch am ei enedigaeth ddiogel.

Gorsaf 2

Sarah a Rejoice

'A dyma Sara'n dweud, "Mae Duw wedi gwneud i mi chwerthin yn llawen, a bydd pawb sy'n clywed am y peth yn chwerthin gyda mi. "' Genesis 21:6.

Chwarddodd Sarah pan glywodd hi'r negeswyr yn proffwydo y byddai'n beichiogi. (Genesis 18:9-15).

Roedd Sarah yn fam oedrannus, i ddweud y lleiaf, gan roi genedigaeth i Isaac yn 91 oed! Roedd ei llawenydd llawn chwerthin yn dilyn blynyddoedd hir o siomedigaeth.

'Oes dim yn ormod i'r Arglwydd?' gofynnodd y negeswyr wrth Dderw Mamre iddi.

Galwodd Abraham a Sarah eu mab yn 'chwerthin', sef ystyr yr enw Isaac.

Plentyn arall fyddai wedi dod â llawer o lawenydd a chwerthin i'w mam ydi Rejoice.

Mae Rejoice yn 16 oed ac yn mwynhau mynd i'r ysgol. Mae'n gwybod pa mor bwysig yw addysg - mor bwysig nes ei bod wedi dianc at ewyrth annwyl iddi, un y gwyddai fyddai'n ei hanfon i'r ysgol. Trwy fynd i'r ysgol gall wireddu ei breuddwyd o fod yn gyfreithwraig.

Mae addysg yn helpu genethod i gyrraedd eu llawn botensial yn Sierra Leone ac oddi amgylch y byd. Mae'n factor allweddol wrth atal priodi a beichiogi'n ifanc, sy'n aml yn arwain at farwolaeth gynamserol.

Codwch allwedd ac wrth ei ddal yn eich llaw, gweddïwch dros Rejoice a merched ifanc eraill tebyg iddi. Gweddïwch y bydd y neges am addysg fel 'yr allwedd i bob drws' yn cael ei chlywed yn glir trwy ei bywyd a'i hesiampl.

Gorsaf 3

Rebeca a Sombo

'Roedd Rebeca'n methu cael plant, felly dyma Isaac yn gweddïo ar yr ARGLWYDD drosti, a dyma hi'n beichiogi.' Genesis 25:21

Nid yn unig ddaru hi feichiogi, fe roddodd enedigaeth i efeilliaid! Jacob ac Esau.

Diolchwch am yr efeilliaid iach o Sierra Leone, y mae eu llun isod: Jenebar (chwith) a Sarah (de). Diolchwch fod eu mam wedi rhoi genedigaeth yn ddiogel.

Daliwch y tedi neu'r blanced wrth ichi ddarllen y myfyrdod byr isod:

Mae'r ddwy eneth fach yn bythefnos oed.

Mae llygaid bach yn agor, yn crychu tuag atoch chi, yn ymestyn am gwtsh. Trwynau bach yn crychu. Bysedd bach.

Dwylo bach, yn symud yn ddistaw, ddistaw. Edafedd o amgylch yr arddwrn. Maent yn agor eu llygaid i weld y byd. Mae'r fam yn dal yr efeilliaid, un ym mhob braich. Mae'n gwenu ac yn edrych yn heddychlon. Mae eu dwylo'n plycio. Maent yn anadlu'n ysgafn.

Peli bach o gariad.

Yandaygo (prydferth).

Molwch Dduw am eu bywyd bach, ac am eu genedigaeth ddiogel. Gweddïwch y caiff Jenebar a Sarah fyw bywyd iach a hapus ac y bydd gan Sombo'r cyfan sydd ei hangen arni i ofalu amdanynt.

Gorsaf 4

Jochebed a Judith

'A dyma'r wraig yn beichiogi, ac yn cael mab. Pan welodd hi'r babi bach hyfryd, dyma hi'n ei guddio am dri mis.' Exodus 2:2

Roedd yn amser peryglus i gael bachgen bach yn yr Aifft pan fu geni Moses. Dyna pam y bu raid i Jochebed ei guddio, rhag iddo gael ei ladd gan swyddogion y Pharo. Roedd wedi gorchymyn fod pob babi gwryw i'w ladd. Pan aeth Moses yn rhy fawr i'w guddio, gosododd ei fam ef mewn basged yn y brwyn wrth ymyl yr afon. Roedd ei chwaer Miriam yn cadw golwg arno.

Mae'n adeg beryglus i gael babi yn Sierra Leone heddiw.

Mae deg mam yn marw wrth roi genedigaeth pob dydd.

Nid yw un o bob naw babi yn byw i weld eu pen blwydd yn bump oed.

Y rhan arall o hanes Jochebed a Moses oedd gwaith rhyfeddol y bydwragedd Shiffira a Pua. Fe wnaethant wrthod cyflawni gorchymyn Pharo i ladd pob babi gwryw. Fe wnaethant gadw'n driw at eu galwad i ddod â bywyd i'r byd.

Yn Sierra Leone, mae nyrsys a gweithwyr iechyd wedi eu hyfforddi yn hollbwysig i sicrhau bod babanod yn cael eu geni'n ddiogel.

Diolchwch am nyrs Judith, yn y llun, sydd wedi ei chefnogi gan RADA, partner Cymorth Cristnogol. Mae'n llawn

cydymdeimlad a gofal dros y mamau a'r babanod sy'n dod i'r ganolfan iechyd.

Ysgrifennwch weddi dros ddiogelwch mamau a babanod Sierra Leone a rhowch hi yn y fasged. Diolchwch am nyrs Judith a gweddïwch y bydd RADA'n gallu cefnogi mwy o nyrsys tebyg iddi.

wythnos cymorth cristnogol
12–18 MAI

Gorsaf 5

Rachel a Fatmata

'Dyma nhw'n teithio ymlaen o Bethel. Roedden nhw'n dal yn eithaf pell o Effrath pan ddechreuodd Rachel gael ei babi - ac roedd yr enedigaeth yn galed. Pan oedd y sefyllfa ar ei gwaethaf, dyma'r fydwraig yn dweud wrth Rachel, "Paid bod ag ofn. Mae gen ti fab arall ar ei ffordd." A dyma Rachel yn marw. Wrth iddi dynnu ei hanadl olaf, dyma hi'n galw'r plentyn yn Ben-oni; ond galwodd ei dad e yn Benjamin.' Buodd Rachel farw, a chafodd ei chladdu ar ochr y ffordd oedd yn mynd i Effrath (sef Bethlehem).' Genesis 35:16-19

Golyga Ben-oni 'Mab fy nhristwch'.

Mae deg merch yn marw bob dydd wrth roi genedigaeth yn Sierra Leone.

Fel Rachel, bu farw Fatmata wrth roi genedigaeth ar ymyl y ffordd. Doedd dim digon o ambiwlansys yn ymyl felly bu raid iddi gerdded am dair awr, o dan haul crasboeth, i'r ysbyty agosaf. Roedd y ffordd yn hir ac ymdrechodd i barhau i gerdded. Roedd yn wan a llwglyd ac ni allodd roi genedigaeth. Bu farw ar ymyl y ffordd.

'Ac mae'r Ysbryd yn ein helpu ni hefyd yn ein cyflwr gwan presennol. Wyddon ni ddim yn iawn beth i'w weddïo, ond mae'r Ysbryd ei hun yn gofyn ar ein rhan ni. Mae yntau'n griddfan – dydy geiriau ddim yn ddigon.' (Rhufeiniaid 8:26)

Caniatewch i chi'ch hun eistedd gyda thristwch y storïau hyn mewn gweddi dawel gerbron Duw.

Credwn y dylai Sierra Leone fod yn abl i sicrhau gofal iechyd fyddai'n atal storïau fel hyn yn y dyfodol. Ni ddylai famau farw wrth roi genedigaeth. Dylai Sierra Leone allu cyflenwi gwell gofal iechyd, mwy o ambiwlansys, mwy o nyrsys wedi eu hyfforddi. Fodd bynnag, mae'n dal i dalu dyledion y benthyciadau oedd eu hangen i fynd i'r afael ag argyfwng Ebola yn 2014, sydd yn arallgyfeirio arian i ffwrdd o'r gofal iechyd sydd ag angen mor fawr amdano. Credwn y dylid dileu dyled Ebola.

Gan fod gan Lywodraeth y DU ddylanwad mor fawr fel pedwerydd cyfranddaliwr mwyaf yr IMF (International Monetry Fund), rydym yn galw ar y Canghellor i:

- sicrhau fod holl ddyledion Sierra Leone ar y benthyciadau a dderbyniodd er mwyn ymladd Ebola yn cael eu dileu
- cymryd camau brys i osgoi unrhyw argyfwng dyled newydd rhag codi mewn gwledydd sy'n datblygu a mynd i'r afael yn effeithiol a hwy pan fo hynny'n digwydd.

Os ydych am ychwanegu eich llais at yr alwad hon a chyd-sefyll gyda mamau beichiog Sierra Leone, yna arwyddwch ein cerdyn post ymgyrchu sydd ar gefn y defosiwn dyddiol, a'i roi yn y bocs esgidiau.

Gorsaf 6

Hanna a Tenneh

'Arglwydd hollbwerus, plîs wnei di gymryd sylw ohono i, a pheidio troi oddi wrtho i? Os gwnei di roi mab i mi …'

1 Samuel 1:11

Roedd Hanna'n ysu am blentyn ac arllwysodd ei chalon gerbron Duw mor danbaid, roedd Eli'r offeiriad yn credu ei bod yn feddw! Clywodd Duw ei gweddi ac mewn amser cafodd fab, Samuel!

Mae'r eithafoedd hyn o dristwch a llawenydd yn rhan o wyrth bywyd i gynifer o amgylch y byd.

Mae Tenneh, yn y llun, wedi profi mwy na'r mwyafrif.

Bu farw babi cyntaf Tenneh o fewn misoedd i enedigaeth drawmatig. Ond yn awr, gyda help nyrs Judith, mae ganddi fab iach, hardd sy'n dri mis oed, Ansumana Bangalie.

Mae Tenneh mor ddiolchgar am help a chefnogaeth nyrs Judith. 'Gyda dyfodiad Judith, mae bywydau cymaint wedi newid. Rydym ni'r mamau'n gwybod y byddwn yn iawn gyda Judith, cyn belled ag y gallwn weld y wawr ar y gorwel.'

Goleuwch gannwyll a gweddïwch y bydd mwy o famau yn Sierra Leone yn gallu gweld goleuni'r wawr oherwydd Wythnos Cymorth Cristnogol.

wythnos cymorth cristnogol
12–18 MAI

Gorsaf 7

Michal a Joanna

‘Wnaeth Michal, merch Saul, ddim cael plant o gwbl.’ 2 Samuel 6:23

Mae o leiaf saith o ferched yn y Beibl a gafodd hi’n anodd i feichiogi, neu a ddisgrifir fel diffrwyth. Michal yw’r unig un na chafodd blentyn yn y diwedd.

Dyw 2 Samuel 6 ddim yn egluro wrthym pam fod Michal heb blant. Daw adnod 23 yn syth ar ôl iddi hi a’i gŵr Dafydd gael ffrae ynghylch ei ddawns noethlymun gerbron Duw, ond nid yw’n dweud wrthym mai cosb oedd iddi fod yn ddiblant. Ni chawn wybod hyd yn oed os oedd Michal am gael plant. Yr oll a wyddom yw na chafodd blant. Mae’r gweddill yn ddirgelwch.

Wrth inni adrodd hanesion trist a llawen geni plant yn Sierra Leone, fe allai gyffwrdd â man tyner yn ein calon ein hunain, neu ym mywyd ein heglwys neu’n cymuned. Mae diffyg plant yn bwnc anodd ei drafod yn agored ac eto’n sail i dristwch mawr mewn sawl calon.

Ac efallai ein bod yn tybio gormod wrth feddwl pam nad yw rhai yn cael unrhyw drafferth ac eraill yn dioddef poen mawr wrth ddyheu am blant. Mae Duw yn ein gwahodd i eistedd gyda’r dirgelwch hwn.

Yn Sierra Leone, dywed Joanna, Uwch Swyddog Rhaglen Cymorth Cristnogol, ‘Mae cymunedau yma yn gweld merch yn marw wrth roi genedigaeth fel ewyllys Duw. Ond rydym yn gweithio fel eu bod yn dod i wybod ei fod yn annerbyniol.’

Eisteddwch a dewiswch aros am ennyd gyda Duw yn y dirgelwch hwn. Gweddïwch am sefyllfa o ddiffyg plant y gwyddoch chi amdano yn eich cymuned. Neu eisteddwch yn nistawrwydd y dirgelwch os ydyw’n berthnasol yn eich bywyd chi. Wrth ichi eistedd, gweddïwch y bydd y diffyg dealltwriaeth yn cael ei dorri ac y daw’r gred anghywir am yr hyn yw ‘ewyllys Duw’ yn ein bywyd i ben yn ein bywyd ni ac ym mywyd merched Sierra Leone.

Gorsaf 8

Elisabeth a Beryl

'Yr Arglwydd Dduw sydd wedi gwneud hyn i mi! Mae wedi bod mor garedig, ac wedi symud y cywilydd roeddwn i'n ei deimlo am fod gen i ddim plant.' Luc 1:25

Dyna wraig ryfeddol yw Elisabeth, mam Ioan y Bedyddiwr. Doedd Secharaeias ddim hyd yn gallu dweud wrthi ei bod yn feichiog oherwydd iddo gael ei daro'n fud. Allwch chi ei ddychmygu'n gwneud arwyddion i egluro hyn iddi!

Ac wrth iddi ddod i ddeall ei sefyllfa feichiog, yn hwyrach ymlaen, mae ei geirau yn mynegi ei derbyniad a'i llawenydd. Mae'n llawn diolchgarwch.

Mae'r diolch hwn yn rhoi genedigaeth i haelioni sy'n arwain i fywyd.

Cafodd Beryl Margaret Hadwin ei geni yn 1927. Gweithiodd fel bydwraig yn Llundain, ble y bu iddi gyfarfod â'i gŵr, Sidney Ellis.

Yn hwyrach mewn bywyd, cafodd Beryl lawdriniaeth ar ei llygaid. Pan ddeffrodd ar ôl y driniaeth, gwelodd nyrs o dras Affricanaidd yn gafael yn ei llaw. O'r foment honno, cymaint oedd ei diolch, addunedodd rhoi rhodd i ofal iechyd yn Affrica.

Bu farw Beryl yn 2015. Ond mae ei chariad yn parhau, trwy'r rhodd ryfeddol a adawodd yn ei hewyllys i Cymorth Cristnogol.

Sefydlwyd Cymynrodd Iechyd Ellis-Hadwin yn enw Beryl. Mae'n gronfa wedi ei gosod i redeg rhaglen iechyd tair blynedd (2016-2020) yn Affrica, ac yn Burundi, Sierra Leone a De Swdan yn benodol, yn ogystal â Kenya a Nigeria.

Mae rhodd ryfeddol Beryl yn golygu y gall mamau a babanod o amgylch y byd oroesi a ffynnu.

Ysgrifennwch i lawr yr hyn yr ydych yn ddiolchgar amdano a rhowch ef yn y jar diolchgarwch.

wythnos cymorth cristnogol
12–18 MAI

Gorsaf 9

Mair a Jebbeh

‘Dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi’n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a’i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.’ Luc 2:7

Mae’n ychwanegu at ryfeddod yr Ymgnawdoliad fod Iesu wedi dewis dod i’r byd mewn ffordd mor fregus, fel plentyn i ferch yn ei harddegau.

Mae’r perygl o farwolaeth mewn genedigaeth ym Methlehem ar adeg geni Iesu yn gwneud hyn yn syniad mwy rhyfeddol byth i’w ystyried.

Ac eto mae’r ffaith i’r Iesu hwn, y Gair a ddaethpwyd yn gnawd, ddod i’r byd yn y ffordd fregus hon yn dweud

wrthym ei fod yn fodlon uniaethu ei hun â phoen y byd hwn yn ei fywyd yn ogystal â’i farwolaeth.

Mae Jebbeh, yn y llun, yn disgwyl dyfodiad ei phlentyn. Mae’n gwybod yn iawn am y risg a wyneba: bu raid i’w chwaer Fatmata gerdded am filltiroedd, o dan haul crasboeth, i’r ysbyty lleol pan oedd yn esgor. Gyda phob cam, roedd Fatmata yn bryderus am ei bywyd hi a bywyd ei babi. Yn drist iawn, dywedodd Jebbeh wrthym, ‘Roedd fy chwaer yn llwglyd iawn. Bu farw ar ymyl y ffordd. Ddaru hi ddim rhoi genedigaeth.’

Trwy ysbrydoliaeth ac esiampl y babi mwyaf rhyfeddol ohonynt i gyd, cawn ein gwahodd i eistedd, sefyll a cherdded mewn undod gyda Jebbeh a holl famau beichiog Sierra Leone ac oddi amgylch y byd lle mae’r risg o roi genedigaeth yn gymaint mwy.

Cymerwch amlen Wythnos Cymorth Cristnogol a rhowch ef i gymydog, ffrind neu ddieithryn a chyd-sefwch dros gyfiawnder, cydraddoldeb ac urddas gyda mamau beichiog ym mhob man.

A byddwch ddiolchgar y gallwn weddïo gyda’r salmydd:

‘Ti ddaeth â fi allan o’r groth. Ti wnaeth i mi deimlo’n saff ar fron fy mam.’ Salm 22:9.

wythnos cymorth cristnogol
12–18 MAI